| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **22 Mai 2013** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Pennaeth Gwasanaethau Archwilio Mewnol** |
| **Teitl:** | **Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r diweddaraf i'r Pwyllgor am yr adroddiadau Archwilio Mewnol diweddar a gyflwynwyd.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

I roi'r diweddaraf i Aelodau ynglŷn ag:

- adroddiadau Archwilio Mewnol diweddar a gyflwynwyd
- ymateb y rheolaeth i faterion rydym wedi'u codi

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Y Pwyllgor i ystyried a rhoi sylwadau ar adroddiadau Archwilio Mewnol diweddar a gyflwynwyd a bod adolygiadau dilynol yn cael eu cynnal.

## 4. Crynodeb o Adroddiadau Archwilio Mewnol Diweddar a gyflwynwyd

Mae ein hadroddiadau'n defnyddio lliwiau ar gyfer sgoriau sicrwydd fel a ganlyn:

| | | |
|---|---|---|
| **Gwyrdd** | Sicrwydd Uchel | Risgiau a rheolaethau'n cael eu rheoli'n dda |
| **Melyn** | Sicrwydd Canolig | Risgiau wedi'u nodi ond maent yn gynwysadwy ar lefel gwasanaeth |
| **Oren** | Sicrwydd Isel | Risgiau wedi'u nodi sydd angen cyfarfod gyda'r Cyfarwyddwr/Aelod Arweiniol |
| **Coch** | Dim sicrwydd | Risgiau sylweddol wedi'u nodi sydd angen cynhadledd achos aelod / swyddog |

Ers fy adroddiad yn Ebrill 2013, rydym wedi cyflwyno'r adroddiadau canlynol.

| Adroddiad Archwilio | Barn Archwilio | Materion a godwyd | | | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Risg gritigol (Coch) | Risg fawr (Oren) | Risg ganolig (Melyn) | |
| Risg Gorfforaethol - Cydweithredu | Gwyrdd | 0 | 0 | 0 | Dim |
| Cynnal a Chadw yn y Gaeaf | Melyn | 0 | 0 | 10 | Dim |
| Canolfan Oak Tree, y Rhyl | Melyn | 0 | 0 | 9 | Dim |

***Ymateb y Rheolaeth i faterion a godwyd gan Archwilio Mewnol***

Mae'r mwyafrif o'n hadroddiadau Archwilio Mewnol yn nodi'r risgiau ac yn rheoli gwendidau. Rydym yn sgorio'r rhain fel risg gritigol, risg fawr neu risg ganolig. Mae rheolaeth yn cytuno ar y camau i fynd i'r afael â'r risgiau, gan gynnwys cyfrifoldebau a therfynau amser.

Rydym yn rhoi adroddiad am yr holl achosion lle nad ydyw rheolaeth yn llwyddo i ymateb i'n gwaith dilynol, neu lle maent yn mynd dros y dyddiad gweithredu y cytunwyd arno o fwy na thri mis. Mae'r Pwyllgor hwn yn penderfynu a oes angen cymryd camau pellach, er enghraifft, drwy alw'r bobl berthnasol i'w gyfarfod nesaf neu ofyn am adroddiad ysgrifenedig i esbonio'r diffyg cynnydd.

Yn ddiweddar fe wnaethom ni gyflwyno dau adroddiad dilynol a sgoriwyd yn wreiddiol fel sicrwydd 'ambr' neu 'ganolig', ac wedi aros yn 'ambr' oherwydd diffyg cynnydd sylweddol.

| Theatr y Pafiliwn, y Rhyl | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer y materion a godwyd | Nifer y camau gweithredu y cytunwyd arnynt | Nifer y camau wedi'u cwblhau | Nifer y camau ar waith | Nifer y camau sy'n weddill |
| Risg gritigol (Coch) | 3 | 5 | 1 | 4 | 0 |
| Risg fawr (Oren) | 2 | 4 | 2 | 1 | 1 |
| Risg ganolig (Melyn) | 8 | 13 | 5 | 7 | 1 |
| **Diogelu Data/Rhyddid Gwybodaeth** | | | | | |
| Risg fawr (Oren) | 4 | 4 | 0 | 4 | 0 |
| Risg ganolig (Melyn) | 3 | 3 | 0 | 0 | 3 |